# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4, Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 23 Mehefin 2025

Amser: 13.01 - 14.48

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/15136

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Mike Hedges AS (Cadeirydd)<br>John Griffiths AS (yn lle Alun Davies AS)<br>Samuel Kurtz AS<br>Adam Price AS |
| Tystion: | Jayne Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, a Thai<br>Sarah Rhodes, Llywodraeth Cymru<br>Hannah Fisher, Llywodraeth Cymru<br>Julie Stokes, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cafwyd ymddiheuriadau gan Alun Davies AS; dirprwyodd John Griffiths AS ar gyfer eitemau 1 a 2.

## 2 Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru): Sesiwn dystiolaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol ar y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru).

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

### 3.1 SL(6)618 – Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrwyr at Gostau Byw (Cymru) 2025

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

### 3.2 SL(6)619 – Rheoliadau Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (Eithriadau ac Amrywio Terfynau Gwariant Ymgyrch) (Cymru) 2025

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

Nid oedd eitemau busnes i'w trafod.

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

### 5.1 SL(6)615 – Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025

Nododd y Pwyllgor ei lythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai.

## 6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 6.1 Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru: Cyfarfodydd y grwpiau rhyngweinidogol

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder.

## 7 Papurau i'w nodi

### 7.1 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor.

### 7.2 Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 3 a Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad)

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor.

### 7.3 Gohebiaeth a Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni: Y Bil drafft Cynllunio (Cymru)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a'r Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni.

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniwyd y cynnig.

## 9 Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru): Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai ar y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru).

## 10 Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar Orchymyn Diwygio Deddfwriaethol (Datgelu Data Gofal Cymdeithasol Oedolion) 2025

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol a chytunwyd i drafod adroddiad drafft yn ei gyfarfod nesaf.

## 11 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dioddefwyr a Llysoedd

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a chytunwyd i drafod adroddiad drafft mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Iechyd Meddwl: Adroddiad drafft

Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad drafft, yn amodol ar fân newidiadau.

## 13 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2)

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol, a chytunodd i drafod adroddiad drafft yn ei gyfarfod nesaf.